Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau
Ysgol Gymunedol Peniel Community School
Parent & Friends Association

Rhif Elusen / Charity No. 1062182

10/09/2026

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2026 – CROESO I BAWB

Annwyl Rieni/Warchodwyr,

Hoffem eich hysbysu am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau (CRhFf) Ysgol Peniel, a gynhelir yn Nosbarth Hafod yn yr ysgol (ac ar-lein) am 7.30pm ar Nos Fawrth, 6ed Hydref 2026.

Helpwch Ni i Symud Ymlaen – Angen Swyddogion Newydd

Mae CCB eleni yn un pwysig iawn gan fod gennym 4 rôl craidd gwag yn y pwyllgor ar hyn o bryd sydd angen llenwi er mwyn i'r gymdeithas allu parhau i weithredu a chefnogi cymuned yr ysgol. Mae'r CRhFf yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfoethogi bywyd ysgol ein plant, trefnu digwyddiadau, meithrin ysbryd cymunedol, a chodi arian ar gyfer yr ysgol. Rydym yn annog rhieni/ gwarchodwyr a ffrindiau'r ysgol i ystyried cymryd rhan a helpu i lunio dyfodol y CRhFf.

Os oes gennych brofiad proffesiynol, arbenigedd penodol, neu gyda'r awydd i'n cynorthwyo, rydym angen eich help! Mae'r rolau canlynol angen eu llenwi:

- Ysgrifennydd ac Is-ysgrifennydd (neu Gyd-ysgrifenyddion) – Ein cadw yn drefnus, cymryd cofnodion, a rheoli ein cyfathrebiadau.
- Is-drysorydd – Helpu i reoli cyllidebau ein digwyddiadau a chyfrif yr arian a godir.
- Is-gadeirydd – Gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd i gynllunio digwyddiadau ac arwain gweithgareddau.

Gwyddom fod bywyd yn brysur iawn ac efallai nid yw'n bosib i bawb ymrwymo i rôl craidd, ond os ydych am helpu, mae gennym sawl tasg arall rydym angen cymorth gyda nhw. Tasgau fel postio ar ein grŵp Facebook, creu posteri ac adnoddau trwy ein cyfrif Canva, a gwirfoddoli yn ein digwyddiadau.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Mae pob rhiant, aelod staff, ac aelod o'r gymuned leol ehangach sydd am gyfrannu yn aelodau awtomatig o'r CRhFf ac fe'ch gwahoddir i fynychu'r CCB. Mae hwn yn gyfle i glywed sut mae'r arian a godwyd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei ddefnyddio er lles y plant a'r ysgol, adolygu gwaith y gymdeithas, ac ethol y Pwyllgor Swyddogion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw un o'r swyddi neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn y cyfarfod, cysylltwch â ni ar penielpfa@outlook.com neu mae croeso i chi drafod gydag un ohonom.

Gobeithiwn yn fawr y bydd nifer yn ystyried cymryd rhan a helpu'r CRhFf i barhau gyda'n gwaith pwysig dros gymuned ein hysgol. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y CCB.

Yn gywir
Carys Jones (Cadeirydd y PFA) a Tracy Davies (Trysorydd y PFA)

Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau
Ysgol Gymunedol Peniel Community School
Parent & Friends Association

Rhif Elusen / Charity No. 1062182

10/09/2026

ANNUAL GENERAL MEETING 2026 - EVERYONE WELCOME

Dear Parents/Guardians,

We would like to give notice of the Annual General Meeting (AGM) of Ysgol Peniel Parents and Friends Association (PFA), which will be held in Dosbarth Hafod at the school (and online) at 7.30pm on Tuesday 6th October 2026.

Help Us Keep Moving Forward - New Officers Needed
This year's AGM is particularly important as we currently have 4 empty core officer roles that need filling in order for the PFA to be able to continue operating and supporting the school community. The PFA plays a vital role in enriching school life for our children, organising events, building community spirit, and raising funds that directly benefit the school. We warmly encourage parents/ guardians and friends of the school to consider becoming involved and helping shape the PFA's future.

If you have professional experience, specific expertise, or just a passion for helping out, we need your help! We need to fill the following roles:

- Secretary & Vice-secretary (or co-secretaries) – Keeping us organised, taking minutes, and managing our communications.
- Vice-treasurer – Helping manage our event budgets and counting up our fundraising.
- Vice-chair – Working closely with the Chair to plan events and lead activities.

We know life is incredibly busy and a core officer role isn't for everyone, but if you're still able to get involved we have several smaller tasks that we need support with. Tasks such as posting on our Facebook group, creating posters and resources via our Canva account and volunteering at our events.

Annual General Meeting
All parents, staff, and members of the wider local community who want to get involved are automatically members of the PFA and are invited to attend the AGM. This is an opportunity to hear how the funds raised over the past year have been used to benefit the children at our school, review the work of the association, and elect the Officer Committee for the year ahead.

If you are interested in any of the roles or have any questions before the meeting, please contact us on penielpfa@outlook.com or feel free to chat with one of us.

We very much hope that many will consider getting involved and helping the PFA continue its important work for our school community. We look forward to seeing you at the AGM.

Yours sincerely,
Carys Jones (PFA Chair) & Tracy Davies (PFA Treasurer)